# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Meeting of Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg held at The Council Chamber, County Hall, The Rhadyr, Usk on Dydd Mawrth, 18fed Tachwedd, 2025 at 10.00 am**

| **Councillors Present** | **Officers in Attendance** |
|---|---|
| Cynghorydd Sir Councillor Alistair Neill, (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Sir Rachel Buckler, (Is-Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Sir: Jill Bond, John Crook, Meirion Howells, M. Newell, Paul Pavia, Peter Strong<br><br>Also in attendance Cynghorwyr Sir: Ben Callard, Aelod Cabinet dros Adnoddau, and Ann Webb | Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau<br>Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc<br>Jane Rodgers, Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a Llywodraethiant<br>Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog<br>Craig O'Connor, Pennaeth Cynllunio<br>Deb Hill-Howells, Pennaeth Gwasanaethau Landlord Masnachol ac Integredig<br>Kate Thompson, Corporate Health & Safety Manager<br>Annette Evans, Rheolwr Cysylltiadau Cwsmeriaid<br>Stacey Jones, Uwch Gyfrifydd<br>Nikki Wellington, Rheolwr Cyllid<br>Dave Loder, Rheolwr Cyllid<br>Tyrone Stokes, Rheolwr Cyllid<br>Rhys James, Strategic Procurement Lead |

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr Sir Steven Garratt, Angela Sandles and C. Werrett

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Dim.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

   Dim.

3. **Cyllideb Ariannol 2025/26 – Diweddariad Ariannol – Craffu ar sefyllfa’r gyllideb ar wasanaethau a ddaw o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor.**

   Cyflwynodd Ben Callard, yr Aelod Cabinet yr adroddiad gyda Jonathan Davies ac ateb cwestiynau aelodau gyda Nicola Wellington, Jane Rodgers a Will McLean:

   *Beth yw effaith y cyfraddau llog uwch na’r disgwyl ar gyllid y cyngor, gan bod darogan y gall cyfraddau ostwng yn fuan, a pha mor sylweddol y gallai unrhyw newidiadau fod dros yr ychydig fisoedd nesaf ?*

   Effaith fach iawn y byddai unrhyw newidiadau mewn cyfraddau llog yn y misoedd nesaf yn ei chael ar y flwyddyn ariannol gyfredol, gan fod y rhan fwyaf o ragolygon eisoes wedi ystyried gostyngiadau tebygol. Y prif gonsyrn yw cost benthyca, sy’n gysylltiedig â chynnyrch gild yn hytrach nag yn uniongyrchol gyda’r gyfradd banc. Mae’r rhan fwyaf o fenthyca’r cyngor ar

gyfraddau hirdymor sefydlog felly dim ond cyfran fach sy'n agored i newidiadau tymor byr mewn cyfraddau. Cafodd y dull gweithredu ei gydbwyso i reoli risg, gan beidio bod yn or-ofalus nac agored i risg.

*Pa ymyriadau penodol a gymerir gyda'r ysgolion mewn mwyaf o risg sydd mewn diffyg, a phryd y disgwylir y bydd nifer yr ysgolion mewn diffyg yn gostwng?*

Mae'r cyngor yn gweithio gydag ysgolion i gyfarch diffygion yn y flwyddyn a hefyd ddiffygion cronnus, gan roi blaenoriaeth i sefydlogi cyllidebau blynyddol cyn gostwng y cyfanswm diffyg. Mae'r pwysau mwyaf yng nghlwstwr y Fenni a'r Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion, gyda chynlluniau adfer yn eu lle a chydweithio yn mynd rhagddo. Gweithredir ar gynnydd mewn cyllid ac arbedion ond bydd newidiadau yn raddol i osgoi effeithiau addysgol negyddol. Ychwanegodd swyddogion y gall diffygion waethygu cyn gwella oherwydd strwythur y flwyddyn academaidd ond caiff cynlluniau adfer eu monitro yn fisol, ac mae buddsoddiad £1 miliwn y llynedd yn help.

*Sut mae'r cyngor yn trin diffygion strwythurol o gymharu â gorwariant yn y flwyddyn a beth gaiff ei ystyried y lefel ddiogel isaf o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer cydnerthedd ariannol?*

Mae'r cyngor yn anelu i gadw cronfeydd wrth gefn ar gyfer argyfwng ar 5% o'r gyllideb refeniw net, sef yr isafswm lefel ddiogel, ac mae'n gweithio i ailadeiladu cronfeydd wrth gefn a neilltuwyd ar gyfer cydnerthedd tymor canol.

*Pa gategori modelu cyllideb yw'r risg uchaf a pha gynlluniau lliniaru sy'n bodoli os yw risgiau'n gwaethygu?*

Y risg uchaf mewn modelu cyllideb yw galw am wasanaethau, yn arbennig mewn gofal cymdeithasol, digartrefedd ac anghenion dysgu ychwanegol a fu'n fwy anwadal na risgiau traddodiadol fel tâl neu chwyddiant. Mae'r cyngor yn parhau yn hyblyg yn ei fodelu i addasu i newid mewn tybiaethau.

*A ddisgwylir i Grant Trawsnewid Llwybrau Gofal Llywodraeth Cymru ariannu gwasanaethau ychwanegol neu yn syml lanw am ddiffygion i gynnal lefelau gwasanaeth cyfredol, a pha ddisgwyliadau sydd gan weinidogion a gweision sifil ar gyfer ychwanegedd?*

Bwriedir i'r grant gefnogi capasiti ar draws y system, gyda phwyslais ar ryddhau o ysbytai, ond mae'n cydnabod fod angen cynnal capasiti system gyfan. Mae'r grant yn cefnogi cynyddu rhyddhau o ysbytai a hefyd anghenion ehangach y system, gyda monitro chwarterol ac adrodd i Lywodraeth Cymru.

*Beth yw'r cynllun a'r amserlen ar dystiolaeth gadarn o arbedion o'r rhaglen newid ymarfer gofal cymdeithasol a beth gaiff ei wneud os na fedrir cyflawni'r arbedion llawn?*

Mae adolygiadau'n mynd rhagddynt a chaiff arbedion eu gwneud ond ni chafodd arbedion penodol o newid ymarfer eu dynodi ar wahân hyd yma; cânt eu hadlewyrchu yn sefyllfa gyffredinol gofal cymdeithasol oedolion.

*Beth yw'r sbardunau "llinell goch" i'r cyngor ymyrryd yn uniongyrchol mewn rheolaeth ariannol ysgol, tu hwnt i gefnogi a monitro cynlluniau adfer ac a oes unrhyw ysgolion yn agos at y trothwyon hyn?*

Dim ond os y byddai ysgol yn colli rheolaeth ar gyllideb neu'n methu gweithredu cynlluniau adfer a gytunwyd y byddai ymyriad yn digwydd, gan efallai arwain at rybudd a dileu dirprwyo cyllideb. Mae hyn wedi digwydd unwaith o'r blaen ond nid oes unrhyw ysgolion ar y trothwy

hwnnw ar hyn o bryd, er fod monitro agos yn digwydd ar gyfer y Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion ac Ysgol Brenin Harri VIII.

*Beth fydd effaith cynlluniau adfer diffygion ysgol yn yr ystafell ddosbarth, beth yw'r problemau oherwydd rheoli neu anghenion na fedrir eu hosgoi fel gwasanaethau cyfeirio disgyblion, a beth am y cynnydd yn anghenion ymddygiad ac emosiynol myfyrwyr h.y. a oes cymorth ataliol, mwy rhagweithiol?*

Mae'r Gwasanaeth Cyfeirio Disgyblion yn trin anghenion cynyddol a mwy cymhleth yn dilyn y pandemig, gyda'r tri phrif faes gwasanaeth (Uned Cyfeirio Disgyblion, Addysg Heblaw yn yr Ysgol ac ADY pwrpasol). Mae cymorth llythrennedd emosiynol yn parhau'n bwysig ond mae'n annhebyg y bydd lefel yr angen yn dychwelyd i'r hyn oedd cyn y pandemig. Gall adfer cyllideb weithiau arwain at ostyngiadau staff, ond cyrff llywodraethu sy'n gwneud penderfyniadau. Cytunir fod angen mwy o waith ataliol i fynd i'r afael â gwraidd achosion cyn fod myfyrwyr angen cymorth dwys; cydnabyddir yr her gymdeithasol ehangach.

*A yw'r gorwariant ar gludiant teithwyr yn llwyr oherwydd llwybrau anniogel, ac a fedrwch chi egluro meysydd eraill sy'n cyfrannu at y gorwariant?*

Mae'r gorwariant yn wir yn bennaf oherwydd dynodi mwy o lwybrau anniogel i'r ysgol ac ailosod cludiant teithwyr fel yr ymrwymwyd yn ystod y broses adolygu.

*Yng nghyswllt goleuadau stryd yn bod a'r gyllideb, beth yw rôl technoleg pylu goleuadau – a yw wedi rhoi arbedion ac a gaiff ei ymestyn ar draws y sir? Pam nad yw goleuadau yn cael eu troi bant am ganol nos bellach, o gofio am y cynlluniau awyr dywyll?*

Cafodd y polisi troi goleuadau bant ei wrthdroi am resymau diogelwch. Bydd angen rhoi ymateb ysgrifenedig ar dechnoleg pylu goleuadau – **GWEITHREDU – darparu ymateb ysgrifenedig.**

*A yw'r diffyg Yswiriant Gwladol yn eithrio ysgolion?*

Mae'r diffyg yn cynnwys ysgolion gyda rhagolwg costau ychwanegol am y flwyddyn a bwlch cyllid a gaiff ei gario ymlaen fel pwysau wrth symud ymlaen.

*A yw'n bosibl cael ffigur bras ar gyfer dibyniaeth y cyngor ar grantiau?*

Mae'r cyngor yn cyllidebu ar gyfer lefel o grantiau penodol, gan nodi y caiff llawer o grantiau eu pasio'n uniongyrchol i asiantaethau eraill, tebyg i weithredu fel asiant i Lywodraeth Cymru ar gyfer rhai gwasanaethau. – **GWEITHREDU: Swyddogion i egluro a rhoi ffigur bras ar gyfer dibyniaeth y Cyngor ar grantiau, yn cynnwys dadansoddiadau o gyllid craidd, cyllid mewn risg a grantiau ddosberthir gan asiantau.**

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet a swyddogion am eu gwaith parhaus a'u hymatebion i gwestiynau'r aelodau. Cafodd yr adroddiad ei gynnig.

**4. Diweddariad Cynllun Ariannol Tymor Canol – Adolygu sefyllfa'r gyllideb.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Ben Callard, yr Aelod Cabinet gyda Jonathan Davies, ac atebodd gwestiynau aelodau gyda Nicola Wellington, Will McLean a Jane Rodgers:

*Faint o ysgolion oedd wedi cyflwyno cynlluniau adfer erbyn hanner tymor mis Hydref a faint gafodd eu dychwelyd ar gyfer eu gwella?*

Cafodd yr holl gynlluniau adfer gofynnol eu cyflwyno erbyn hanner tymor mis Hydref, eu hadolygu'n fewnol a'u monitro'n fisol. Ni chaiff cynlluniau eu hailysgrifennu os collir targedau; gofynnir i ysgolion addasu blynyddoedd y dyfodol i ateb ymrwymiadau.

*Beth yw'r amserlen nodweddiadol ar gyfer cynlluniau adfer ac a yw ysgolion gyda diffygion uchel yn wynebu heriau ariannol strwythurol?*

Caiff cynlluniau adfer eu teilwra ar gyfer pob ysgol, gan anelu am ddisgyblaeth ariannol gadarn a chynaliadwy heb newidiadau sy'n tarfu. Rhoddir cymorth i alluogi adferiad graddol gan leihau'r effaith ar ddisgyblion.

*Sut y gellir sicrhau'r cyngor bod arbedion newid arfer gofal cymdeithasol oedolion yn cael effaith a faint o becynnau gofal a gafodd eu gostwng drwy'r broses adolygu?*

Mae'r rhaglen newid ymarfer yn gymhleth, gyda ffocws ar ymateb i gynnydd mewn galw a defnyddio adnoddau'n effeithlon. Caiff arbedion eu hadlewyrchu yn y llinell waelod ond mae'n anodd ynysu ffigurau penodol oherwydd anghenion deinamig a newidiadau mewn cyflenwi gofal. Caiff adolygiadau eu cynnal a bydd dyraniad mwy manwl ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

*Faint mae'r broses adolygu yn edrych yn holistig ar sefyllfa pob unigolyn?*

Mae'r ymagwedd yn wir yn holistig, gan ystyried deilliannau llesiant, cymorth i ofalwyr, cysylltiadau cymunedol a thechnoleg gynorthwyol, nid dim ond gofal ffurfiol.

*Beth yw'r blaenamcan o leoliadau preswyl erbyn diwedd y flwyddyn a'r flwyddyn nesaf, o gofio'r cynydd mewn dementia a gofal cymhleth?*

Mae'r cyngor yn rhagweld tri lleoliad newydd bob mis yn seiliedig ar dueddiadau diweddar ond mae'n anodd rhagweld hyn a gall pwysau gaeaf effeithio arno. Mae'r cynnydd yn gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio ac anghenion cynyddol gymhleth.

*Pa gyfran o gostau cyfreithiol cynyddol mewn gwasanaethau plant y gellid eu hosgoi a pha fodelau cymorth cyfreithiol eraill a gafodd eu hystyried?*

Rhoddodd y cyngor gynnig ar gomisiynu cymorth cyfreithiol allanol ond fe gynyddodd y costau. Defnyddir eiriolaeth mewnol lle'n bosibl a bwriedir cynnal dadansoddiad pellach i ddynodi cyfleoedd arbed costau. Caiff rhai costau eu gorfodi gan y llysoedd ac ni fedrir eu rheoli'n llwyr.

*Beth yw'r rhaniad rhwng cyllid Llywodraeth Cymru a'r dreth gyngor ar gyfer y sir? Sut mae hyn yn cymharu gyda chyfartaledd Cymru ac a fedrai'r Cynllun Datblygu Lleol a thai fforddiadwy effeithio ar y gymhareb hon?*

Mae'r rhaniad cyfartalog yng Nghymru tua 70% cyllid Llywodraeth Cymru a 30% treth gyngor, ond mae Sir Fynwy yn dibynnu mwy ar y dreth gyngor. Mae gwahanol ffactorau yn effeithio ar y gymhareb, yn cynnwys gostyngiadau, eithriadau a bandiau datblygu. Gallai'r Cynllun Datblygu Lleol a thai fforddiadwy ddylanwadu ar dybiaethau'r dyfodol ond mae'n faes cymhleth a caiff ei fodelu'n ddarbodus.

*Sut fydd yr Aelod Cabinet yn sicrhau fod cynlluniau arbedion a thrawsnewid dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn wirioneddol realistig a chyraeddadwy, o gofio mai dim ond 80% o'r arbedion a gynlluniwyd a gafodd eu sicrhau y flwyddyn ddiwethaf a bod llawer o wasanaethau eisoes ar isafswm statudol. Pa feini prawf gaiff eu defnyddio i benderfynu os yw arbediad*

*trawsnewidiol yn ddigon cadarn i gael ei gynnwys yn y gyllideb ac a fydd craffu yn cael cyfle i brofi'r tybiaethau hyn?*

Roedd yr Aelod Cabinet yn cydnabod yr her, gan nodi y bu targedau arbedion yn anodd, ond mae'r cyngor wedi sicrhau cyfradd uwch (tua 92%) hyd yma eleni. Caiff cynigion am arbedion eu craffu drwy'r broses ymgynghori ar y gyllideb, yn cynnwys pwyllgorau craffu, fydd yn parhau i gael cyfle i herio cadernid cynigion ac os ydynt yn gyraeddadwy ai peidio.

*Beth yw strategaeth y cyngor ar gyfer gostwng dibyniaeth ar dderbyniadau a benthyca cyfalaf, o gofio y rhagwelir y bydd derbyniadau cyfalaf yn disgyn yn sydyn, a sut fydd y cyngor yn cynnal buddsoddiad mewn asedau hanfodol heb ganiatáu iddynt waethygu?*

Mae'r cyngor yn gostwng defnydd derbyniadau cyfalaf i gefnogi'r gyllideb refeniw, gan anelu am sero erbyn 2028/29. Mae'r gronfa derbyniadau yn lleihau a dim ond drwy'r Cynllun Datbygu Lleol newydd y caiff ei ail-lenwi. Rhoddir blaenoriaeth i fuddsoddiad cyfalaf yn seiliedig ar risg a fforddiadwyedd, gydag asesiadau technegol yn llywio penderfyniadau. Bydd angen benthyca ar gyfer buddsoddiadau uwchben cyllid craidd, ac mae'r cyngor yn asesu'r effaith hirdymor a blaenoriaethu anghenion.

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet a swyddogion am yr adroddiad a'u hymatebion i gwestiynau aelodau, gyda'r aelodau yn croesawu ymdrechion i gyfenwi gwasanaethau mwy effeithiol gyda ffocws ar y cwsmer. Cafodd yr adroddiad ei gynnig.

5. **Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch – Craffu'r adroddiad ar sut y caiff digwyddiadau a risgiau iechyd a diogelwch y Cyngor eu rheoli.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Kate Thompson ac atebodd gwestiynau aelodau gyda Matthew Gatehouse:

*A yw'r gyfradd uchel o ddyddiau gwaith a gollir oherwydd salwch yng Nghyngor Sir Fynwy (dros ddwywaith y cyfartaledd cenedlaethol) yn dueddiad a welir mewn awdurdodau eraill a beth yn fwy sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r ffigur hwn?*

Mae'n anodd cael data i gymharu ond dywedodd Caerffili yn ddiweddar fod ganddynt ffigur uchel tebyg. Mae'r cyngor yn parhau i geisio cael data ar gyfer Cymru gyfan.

*A yw cyfraddau salwch uchel yn effeithio mwy ar unrhyw gyfarwyddiaethau neilltuol e.e. gofal cymdeithasol?*

Mae Gofal Cymdeithasol ymysg y cyfarwyddiaethau yr effeithir mwyaf arnynt a chynhaliwyd cyfarfodydd yn ddiweddar gyda rheolwyr ac Adnoddau Dynol i ddadansoddi data a datblygu cynlluniau gweithredu i ostwng absenoldeb salwch.

*Pryd y caiff y dangosfwrdd iechyd a diogelwch ei rannu ac a yw'r data yn cynnwys preswylwyr sy'n defnyddio cyfleusterau'r cyngor yn ogystal â staff?*

Mae'r dangosfwrdd yn cael ei ddatblygu a dylai fod yn barod erbyn diwedd y flwyddyn ar ôl ymgynghori. Mae'r data yn cynnwys staff, contractwyr a chwsmeriaid sy'n defnyddio cyfleusterau, ond dim ond digwyddiadau lle gwnaeth y gweithgaredd gwaith neu safle gyfrannu gaiff eu dosbarthu fel bod yn gysylltiedig â gwaith. Caiff pob digwyddiad eu cofnodi ond dim ond rhai cysylltiedig â gwaith gaiff eu hadrodd yn y ffigurau.

*A fedrwch esbonio'r defnydd o'r term "salwch seicolegol" o gymharu â "iechyd meddwl" a beth sy'n cael ei wneud am iechyd meddwl, yn cynnwys cyrsiau rheoli straen a chysylltu straen gyda llwyth gwaith a thoriadau yn y gyllideb?*

"Salwch seicolegol" yw'r dosbarthiad Adnoddau Dynol ac mae'n cynnwys ystod o gyflyrau (gorbryder, straen, iselder ac yn y blaen) gyda dadansoddiadau mwy manwl ar gael. Cafodd hyfforddiant llesiant Connect 5 ei ymestyn, mewn gofal cymdeithasol i ddechrau, gyda chynlluniau i'w ehangu ar draws y cyngor. Disgwylir i reolwyr gynnal asesiadau risg straen fydd yn helpu i ddynodi a thrin ffactorau straen cysylltiedig, yn cynnwys llwyth gwaith.

*Beth sy'n cael ei wneud am achos gwraidd y cynnydd mewn trais yn erbyn athrawon gan ddisgyblion, ac a yw'r cyngor yn mynd i'r afael ag ymddygiad a rheoleiddio emosiynol mewn pobl ifanc?*

Mae ffocws y swyddog ar gefnogi staff yr effeithir arnynt a sicrhau data dibynadwy. Mae tîm cyfarwyddiaeth Cymru yn trin materion cysylltiedig â phlant, yn cynnwys asesiadau a chymorth arbenigol. Mae'r swyddog yn cwrdd yn rheolaidd gyda chydweithwyr diogelu a'r gyfarwyddiaeth i gydlynu cefnogaeth ar gyfer staff a hefyd ddisgyblion.

*Beth sy'n enghraifft o ddigwyddiad heb fod yn gysylltiedig â gwaith? A fedrwn bwysleisio pwysigrwydd cysylltu rheoli straen gyda chynllunio gwaith?*

Er enghraifft, ni fyddai plentyn yn baglu dros garrai ei esgidiau yn y maes chwarae yn ddigwyddiad cysylltiedig â gwaith os nad oedd ffactor gweithle (fel twll yn y ffordd) wedi cyfrannu. Byddai asesiadau risg straen yn helpu i ddynodi materion cynllunio gwaith.

*A yw "salwch seicolegol" yn gategori rhy eang ac a ddylid gwahanu straen cysylltiedig â gweithle oddi wrth gyflyrau gyda diagnosis meddygol? Sut all y cyngor gefnogi unigolion yn well a gwella adroddiadau i wahaniaethu rhwng yr achosion hyn?*

Caiff pob achos ei drin yn unigol ac mae categorïau adrodd newydd nawr yn gwahanu straen gweithle oddi wrth ffactorau personol, gyda data dechreuol yn dangos fod tua 20% o straen yn gysylltiedig â gweithle, 10% yn gymysg a 70% oherwydd ffactorau y tu allan i waith **– <u>GWEITHREDU: swyddogion i gysylltu gyda'r aelod tu allan i'r cyfarfod i ymchwilio gwell dynodi a chefnogaeth.</u>**

**Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr adroddiad a'u hymatebion. Cafodd yr adroddiad ei gynnig.

6. **<u>BUSNES YCHWANEGOL: Nodi a chyfeirio unrhyw gwestiynau sy'n codi: Diweddariad ar Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol – Craffu'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i weithredu Caffael Cymdeithasol Gyfrifol.</u>**

Caiff cwestiynau gan aelodau eu hanfon at Cath Fallon, Rhys James a'r Cynghorydd Callard ar gyfer ymateb – **<u>GWEITHREDU.</u>**

7. **<u>Cynllun Gwaith y Cyngor a'r Cabinet.</u>**

Gofynnodd y Cynghorydd Bond am yr Asesiad Perfformiad Panel. Esboniodd Matthew Gatehouse fod yr Asesiad Perfformiad Panel yn ofyniad statudol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru benodi panel

annibynnol a phanel cymheiriaid unwaith bob pum mlynedd i adolygu effeithlonrwydd eu trefniadau. Mae hyn yn atodi'r broses hunanasesu flynyddol. Bwriedir cynnal asesiad cyntaf Cyngor Sir Fynwy ym mis Chwefror 2026 a bydd adroddiad ar gael i'r pwyllgor er gwybodaeth.

**8. Cynllun Gwaith a Rhestr Weithredu Craffu Perfformiad a Throsolwg.**

Nododd swyddogion mai dim ond dwy eitem sylweddol a gaiff eu trafod mewn cyfarfodydd o hyn ymlaen lle'n bosibl, gyda Busnes Ychwanegol yn opsiwn ar gyfer materion ychwanegol. Tynnodd swyddogion sylw aelodau at yr eitemau Addysg a ddaw i Pobl ar 21 Ionawr, a gwahoddir aelodau'r pwyllgor i hynny. Mae aelodau yn hapus i dderbyn yr adroddiad Asesu Risg bob 6 mis (efallai mai dan Fusnes Ychwanegol y byddai orau cynnwys hynny).

Cododd y Cynghorydd Bond yr angen i adolygu'r broses dyrannu grantiau, gan gyfeirio at faterion blaenorol o'r Galw i Mewn yn gynharach yn y flwyddyn a nodi fod arian o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn parhau ar ôl yn ogystal â chyfleoedd Balchder Bro a Chronfa Effaith ar y gweill. Tanlinellodd bwysigrwydd tryloywder a chraffu amserol. **GWEITHREDU: dilyn lan eto gyda swyddogion.**

**9. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd y cofnodion.

**10. Cyfarfod nesaf: Dydd Mercher 3 Rhagfyr 2025 am 10.00am.**

Dydd Mercher 3 Rhagfyr 2025 am 10.00am.

**11. BUSNES YCHWANEGOL: Nodi a chyfeirio unrhyw gwestiynau sy'n codi: Diweddariad ar Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol – Craffu'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i weithredu Caffael Cymdeithasol Gyfrifol.**

Questions from members will be sent to Cath Fallon, Rhys James and Councillor Callard for a response **– ACTION**

The meeting ended at **12.41 pm**